

Fframwaith Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol CIPFA/SOLACE

Cyngor Sir y Fflint - Cod Llywodraethu Corfforaethol 2017

Adran	Egwyddorion Craidd	Tudalen
A	Ymddwyn gydag uniondeb, dangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol a pharchu rheolaeth y gyfraith	2
B	Sicrhau didwylledd ac ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid	6
C	Diffinio deilliannau yn nhermau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy	9
D	Pennu'r ymyriadau angenrheidiol ar gyfer optimeiddio cyflawniadau'r deilliannau a fwriadwyd	12
E	Datblygu capasiti'r endid, yn cynnwys gallu ei arweinyddion a'r unigolion sy'n rhan ohono	15
F	Rheoli risg a pherfformiad drwy reoli mewnol cydnerth a rheolaeth ariannol gref	19
G	Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol	25
	Datganiad Sicrwydd	28

Y Cyngor yw awdurdod Gweinyddol Cronfa Bensiynau Clwyd (y Gronfa Bensiynau). Mae'r trefniadau llywodraethu a esbonnir yn y Datganiad Llywodraethu Blyneddol yma yr un mor gymwys i gyfrifoldebau'r Cyngor tuag at y Gronfa Bensiynau.

Mae yna ofynion penodol ychwanegol ar gyfer y Gronfa Bensiynau, sef:

- Datganiad Egwyddorion Buddsoddi;
- Datganiad Strategaeth Cyllido;
- Gwerthusiad Actwaraidd llawn i'w gynnal bob tair blynedd.

A. Egwyddor Graidd: Ymddwyn gydag uniondeb, dangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol a pharchu rheolaeth y gyfraith

Ymddwyn gydag uniondeb, dangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol a pharchu rheolaeth y gyfraith

Ymddwyn gydag uniondeb

1. Sicrhau bod aelodau a swyddogion yn ymddwyn gydag uniondeb ac yn arwain diwylliant lle bod gweithredu er budd y cyhoedd yn cael ei arddangos yn weladwy ac yn gyson sydd o ganlyniad yn diogelu enw da'r Cyngor
 2. Sicrhau bod aelodau'n arwain wrth sefydlu egwyddorion neu weithredu neu weithredoedd safonol ar gyfer y Cyngor a'i staff a'u bod yn cael eu cyfathrebu a'u deall. Dylai'r rhain adeiladu ar y Saith Egwyddor ar gyfer Bywyd Cyhoeddus ('Egwyddorion Nolan')
 3. Arwain drwy esiampl a defnyddio'r egwyddorion gweithredol neu werthoedd safonol hyn fel fframwaith ar gyfer penderfynu a chymau gweithredu eraill.
 4. Arddangos, cyfathrebu a gwreiddio'r egwyddorion gweithredu neu werthoedd safonol drwy bolisiau a phrosesau priodol sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol
- Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys egwyddorion cyffredinol trefniadau llywodraethu'r Cyngor ac mae'r Swyddog Monitro yn monitro ac yn adolygu ei weithgaredd er mwyn sicrhau bod y nodau a'r egwyddorion yn gwbl effeithiol a'u bod yn parhau i fod yn berthnasol. Mae Adrannau 19-23 o'r Cyfansoddiad yn cynnwys y Codau Ymddygiad a'r Protocolau y mae Aelodau a Swyddogion (cyflogeion) wedi cytuno i gydymffurfio a nhw. Mae'r Cyngor yn gofyn i aelodau, p'un a ydynt yn cael eu hethol neu eu cyfethol, lofnodi ac i fod yn rhwymedig i'n Cod Ymddygiad. Gyda'i gilydd, mae'r codau a'r protocolau hyn yn adlewyrchu Egwyddorion Nolan ac yn eu trosi'n ymddygiadau sy'n ategu'r egwyddorion. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn y [Cyfansoddiad](#):
 - *Cod Ymddygiad Aelodau* (1, 2, 3 a 4)
 - Safonau Sir y Fflint sy'n cynnwys Gweithdrefn Ddatrys Leol ar gyfer cwynion am ymddygiad aelodau (1, 2, 3 a 4)
 - Protocol i'r Aelodau ar y modd y dylent ymdrin â chontractwyr / datblygwyr a thrydydd partïon eraill (1, 3 a 4)
 - Protocol ar berthnasau Aelodau / Swyddogion (1, 2, 3 a 4)
 - *Cod Ymddygiad Swyddogion* (1, 3 a 4)
 - Mae'r Cyngor yn gweithredu protocol etholiadau effeithiol, gan sicrhau y cedwir at safonau uchel yn ystod etholiadau. (1)
 - Mae cyflogeion hefyd yn rhwymedig i bolisi 'swyddi a gyfyngir yn wleidyddol'. Mae'r polisi hwn yn sicrhau bod yr holl gyflogeion cymwys yn cydymffurfio ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu gweithgareddau gwleidyddol. (1)
 - Mae gan y Cyngor system werthuso ar gyfer cyflogeion sy'n seiliedig ar [Fframwaith Cymhwysedd Ymddygiadol](#) y Cyngor (3) ac mae'n gysylltiedig ag amcanion y Cyngor a esbonnir yng [Nghynllun y Cyngor](#). Mae yna hefyd bolisiau [Amrywiaeth a Chydraddoldeb](#) ac [Urddas yn y Gwaith](#). (1,2,3 a 4)
 - Mae gan y Cyngor [Strategaeth Atal Twyll a Llygredd](#), [Cynllun Ymateb i Dwyll](#) a Pholisi [Chwythu'r Chwiban](#) sy'n cael eu hadolygu a'u diweddarau

yn gyfnodol. (1,2, 3, a 4)

Arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol

5. Ceisio sefydlu, monitro a chynnal safonau a pherfformiad moesegol y Cyngor
6. Ategu ymddygiad personol gyda gwerthoedd moesegol a sicrhau eu bod yn treiddio i holl agweddau'r Cyngor o ran diwylliant a dulliau gweithredu
7. Datblygu a chynnal polisiau a gweithdrefnau cadarn sy'n rhoi pwyslais ar werthoedd moesegol cytunedig
8. Sicrhau bod gofyn i ddarparwyr gwasanaeth allanol ar ran y Cyngor weithredu gydag uniondeb ac mewn cydymffurfiaeth â'r safonau moesegol uchel a ddisgwylir gan y Cyngor.

- Mae enw da a statws y Cyngor yn bwysig, ac mae ymrwymiad y Cyngor i reol y gyfraith a gwerthoedd moesegol yn cael eu mynegi yn: 'Gorau Tarian Cyfiawnder' sef arwyddair arfbais y Cyngor. Mae'r Cyngor yn dilyn saith egwyddor bywyd cyhoeddus (Egwyddorion Nolan), sef anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, didwylledd, onestrwydd ac arweiniad [Taro Cydbwysedd - Ategu Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus mewn Rheoliadau](#)
- Mae ymrwymiad y Cyngor i'r egwyddorion hyn yn amlwg yn y codau a'r polisiau isod a geir yn y [Cyfansoddiad](#):
 - *Cod Ymddygiad Aelodau* (5,6)
 - Safonau Sir y Fflint sy'n cynnwys Gweithdrefn Ddatrys Leol ar gyfer cwynion am ymddygiad aelodau (5,6)
 - *Protocol i'r Aelodau ar y modd y dylent ymdrin â chontractwyr / datblygwyr a thrydydd partion eraill* (5,6)
 - Protocol ar berthnasau Aelodau / Swyddogion (5,6)
 - *Cod Ymddygiad Swyddogion* (5,6)
- Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys Rheolau Contractau a Gweithdrefnau Ariannol cynhwysfawr sy'n rheoli y broses o gaffael fydd yn cael eu mabwysiadu wrth gynnal busnes y Cyngor, ac maent ar gael ar y wefan. Adolygwyd y [Rheolau Gweithdrefnau Contract](#) yn 2016, ac mae'r [Rheolau Gweithdrefnau Ariannol](#) (FPRs) yn cael eu hadolygu bob dwy flynedd. Cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf o'r FPR ym mis Tachwedd 2017 (7).
- Mae [Strategaeth Caffael](#) y Cyngor yn galluogi darparu nwyddau a gwasanaethau yn gost effeithiol ac yn sicrhau bod cyfraniad gweithgaredd caffael y Cyngor i'r economi leol, yn arbennig mentrau cymdeithasol, yn gwella. (7)
- Mae'r Rheolau Gweithdrefnau Contract y sicrhau ein bod yn cydymffurfio â rhwymedigaethau o dan [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn ogystal â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan [Ddeddf Cydraddoldeb 2010](#). (8)
- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu set o Fuddion Cymunedol er mwyn ategu gweithgareddau caffael, grantiau a gweithgareddau cymunedol. (8)

Parchu'r gyfraith

9. Sicrhau bod aelodau a staff yn arddangos ymrwymiad cryf i reol y gyfraith yn ogystal â chadw at gyfreithiau a rheoliadau perthnasol
10. Creu'r amodau i sicrhau bod y swyddogion statudol, deiliaid swyddi allweddol ac aelodau'n gallu cyflawni eu cyfrifoldebau'n unol â gofynion deddfwriaethol a rheoliadol
11. Ymdrechu i wneud y defnydd gorau o'r pwerau llawn sydd ar gael er bydd dinasyddion, cymunedau a rhanddeiliaid eraill
12. Mynd ati i ddelio ag achosion o dorri darpariaethau cyfreithiol a rheoliadol mewn modd effeithiol
13. Sicrhau bod achosion o lygredigaeth a chamddefnyddio pŵer yn cael eu trin yn effeithiol

- Prif Swyddog y Cyngor (Llywodraethu) yw'r Swyddog Monitro a'r Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth (SIRO) (9,10,11,12,13)
- Mae swyddogaeth Archwilio Mewnol y Portffolio llywodraethu yn adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio. Mae aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys aelod lleig annibynnol. (9,11,12,13)
- Mae gan y Cyngor Bwyllgor Safonau sy'n cynnwys naw aelod, ac mae pump ohonynt yn annibynnol ar y Cyngor, mae tri yn gynghorwr sir a'r un arall yn cynrychioli cynghorau cymuned. Mae'r pwyllgor yn hyrwyddo ac yn cynnal ymddygiad o safon uchel ymysg cynghorwyr ac aelodau a gyfetholwyd. (9,10,11,12,13)
- Mae perthynas y Cyngor â Swyddfa Archwili Cymru a chyrrff rheoleiddio eraill yn parhau i fod yn gryf. (11)
- Mae gan y Cyngor swyddogaeth Trosolwg a Chraffu gydnerth sy'n cynnwys chwe phwyllgor, sydd â 15 o aelodau etholedig yr un a chymorth swyddog penodol. (9,10,11) Y pwyllgorau yw:
 - Cymuned a Menter;
 - Adnoddau Corfforaethol;
 - Addysg ac ieuencid, sydd â phum aelod statudol a gyfetholwyd;
 - Yr Amgylchedd;
 - Newid Sefydliadol; a
 - Chymdeithasol a Gofal Iechyd
- Os bydd y Cyngor yn methu ag ymdrin â chwynion cwsmeriaid neu eu datrys mewn modd sy'n bodloni'r achwynydd, gallant droi at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac mae ei fanylion cysylltu wedi eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. (9,10,12,13)
- Mae'r Cyngor yn atebol i gyrff rheoleiddio/statudol eraill, ac mae enghreifftiau yn cynnwys Swyddfa y Comisiynydd Gwybodaeth a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, yn ogystal â'r Pedwar Comisiynydd Cymreig dros yr Iaith Gymraeg, Cenedlaethau'r Dyfodol, Plant a Phobl Hŷn. (9, 11,12)

- Yn ychwanegol at ei ddiwylliant agored, mae gan y Cyngor bolisi Chwythu'r Chwiban clir i'r rhai sy'n dymuno riportio camymddygiad. Mae'r polisi yma hefyd yn cael ei hyrwyddo

A. Egwyddor Graidd: Sicrhau didwylledd ac ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid

Sicrhau didwylledd ac ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid

Didwylledd

14. Sicrhau diwylliant agored drwy arddangos, dogfennu a chyfathrebu ein hymrwymiad i fod yn agored
15. Gwneud penderfyniadau sy'n agored ynghylch camau gweithredu, cynlluniau, y defnydd o adnoddau, rhagamcanion, allbynnau a chanlyniadau. Ein rhagdybiaeth o blaid bod yn agored. Os nad felly y mae, dylid darparu cyfiawnhad ar gyfer yr ymresymiad dros gadw penderfyniad yn gyfrinachol.
16. Darparu ymresymiad a thystiolaeth ar gyfer penderfyniadau mewn cofnodion cyhoeddus ac o fewn eglurhad i randdeiliaid a bod yn bendant ynghylch y meini prawf, y sail resymegol a'r ystyriaethau a ddefnyddir. Yn y man, sicrhau bod effaith a chanlyniadau'r penderfyniadau hynny'n glir
17. Defnyddio ymgynghori ac ymgysylltu ffurfiol ac anffurfiol i bennu'r ymyriadau/camau gweithredu mwyaf priodol ac effeithiol.

- Mae'r Cyngor yn defnyddio'r wefan, ei fewnwyd a'i rwydweithiau o bartneriaid a phartneriaethau mwyn dangos ei ymrwymiad i ddidwylledd yn barhaus. (14)
- Mae'r mwyafrif o adroddiadau'n cael eu hystyried yn gyhoeddus ac yn yr achosion pan nad yw hyn yn digwydd, bydd y Pwyllgor yn cytuno peidio â chynnwys y wasg a'r cyhoedd ar ôl i'r Swyddog Monitro neu'r Dirprwy Swyddog Monitro benderfynu bod sail gyfreithiol briodol dros wneud hynny. Mae Pwyllgorau Arolygu a Chraffu'r Cyngor yn cynhyrchu adroddiad blynyddol am eu gwaith a chaiff hwn ei ystyried gan y Cyngor. Mae agenda a chofnodion y pwyllgor a ddelir ar wefan y Cyngor yn darparu cofnod o benderfyniadau'r Cyngor a gwybodaeth ategol. Mae pwyllgorau archwilio yn derbyn adroddiad ar bob gweithred agored yn y Portffolios sydd yn ddogfen gyhoeddus. (15)
- Mae awdur yr adroddiad yn darparu crynodeb o brif nodweddion yr adroddiad, sy'n esbonio sut y ffurfiwyd yr argymhellion. Mae'r crynodeb gweithredol yn gymorth o ran cyflwyno'r adroddiad hwn. Erbyn hyn mae cyfarfodydd y Cyngor llawn a'r Pwyllgor Cynllunio yn cael eu darlledu ar y we, ac mae cofnodion cyfarfodydd eraill yn cael eu drafftio er mwyn rhoi 'blas' o'r cyfarfod i'r darllynydd, sy'n arwain at y penderfyniadau a wnaethpwyd sy'n cael eu hadlewyrchu yn y penderfyniadau a gofnodir. Mae holl bapurau'r pwyllgor, ac eithrio eitemau rhan dau, ar gael yn gyhoeddus. (16)
- Mae ymgynghori ac ymgysylltu â chwsmeriaid a chymunedau yn digwydd ar nifer o wahanol lefelau: democratiaeth gynrychioliadol drwy aelodau etholedig, ymgysylltu strwythuredig drwy gyfarfodydd Fforymau Sirol er enghraifft (gyda Chynghorau Tref a Sir), asesiadau o angen ffurfiol drwy bartneriaethau strategol, arolygon a mecanweithiau adborth megis gweithdai a sioeau teithiol. Mae'r dulliau a ddefnyddir yn cael eu dewis yn ôl gofynion, cynulleidfa a chynhwysiant. Mae'r adborth a dderbynnir yn helpu i siapio a datblygu sut mae'r Cyngor yn gwneud pethau ac yn cynorthwyo rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ddeall yr effeithiau ar gymunedau. (17)
- Mae gan y Cyngor [Egwyddorion Craidd Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd](#), a threfniant adborth [Canmoliaeth, Pryderon a Chwynion](#) a [Strategaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid](#) (17)

- Mae arferion ymgynghori ac ymgysylltu'r Cyngor yn amrywiol o ran maint a dull yn ddibynnol ar natur maes y pwnc. Gallant amrywio o arolwg aelwydydd gwirfoddol ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â'r cyngor, i broses ymgysylltu statudol fanwl megis y rhai a gynhelir ar gyfer adolygiadau ysgolion a newidiadau i wasanaethau cyhoeddus. (17)

Ymgysylltu â rhanddeiliaid sefydliadol mewn modd cynhwysfawr

18. Mynd ati'n effeithiol i ymgysylltu â rhanddeiliaid sefydliadol i sicrhau bod y pwrpas, yr amcanion a'r canlyniadau bwriadedig ar gyfer bob cysylltiad â rhanddeiliaid yn glir fel bod canlyniadau'n cael eu cyflawni mewn modd llwyddiannus a chynaliadwy.
19. Datblygu partneriaethau ffurfiol ac anffurfiol i ganiatáu defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a chyflawni canlyniadau'n fwy effeithiol.
20. Sicrhau bod partneriaethau'n seiliedig ar ymddiriedaeth, ymrwymiad a rennir i newid ynghyd â diwylliant sy'n hybu ac yn derbyn her ymhlith partneriaid a bod gwerth ychwanegol gweithio mewn partneriaeth yn elfen bendant.

- Mae'r Cyngor wedi sefydlu ffrydiau cyfathrebu clir gyda phob rhan o'r gymuned a rhanddeiliaid eraill ac maent wedi rhoi trefniadau monitro priodol ar waith i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol (18)
Mae gan y Cyngor nifer o ffyrdd o gyfathrebu â'i dinasyddion a'i rhanddeiliaid sy'n cynnwys: -
 - Yr e-gylchgrawn 'Eich Cyngor Chi'
 - Gwefan
 - Y Cyfryngau Cymdeithasol
 - Cyhoeddiadau a thafenni
 - Digwyddiadau
 - Cysylltiadau sefydledig a chyfarfodydd rheolaidd â grwpiau/fforymau buddiannau lleol
 - Gwahoddiad i aelodau o'r cyhoedd gyflwyno materion y maent yn eu hystyried fel rhai y dylai'r Pwyllgor Arolygu a Chraffu eu hystyried
 - Ymgynghori â rhanddeiliaid lleol (preswylwyr a busnesau) ynghylch proses y gyllideb i helpu i ddatblygu ei gynigion cyllideb ac i ennyn diddordeb y gymuned.
- Mae gan y Cyngor drefniadau cydweithredu ffurfiol ac anffurfiol gyda rhanddeiliaid sefydliadol eraill i ganiatáu defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a chyflawni canlyniadau'n fwy effeithiol. Mae'r [Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus](#): statudol yn un o nifer o bartneriaethau cydweithredol ar draws asiantaethau; mae cydweithrediaethau eraill yn ymwneud â gwasanaethau rhanbarthol e.e. Addysg (GwE) a Chanolbwynt Comisiynu Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae partneriaethau strategol eraill yn cynnwys Voluntary Sector Compact, People are Safe Board, Bwrdd gweithredol Cyfiawnder Ieuenctid, Bwrdd Iechyd, Lles ac Annibyniaeth, Part 9 Board, Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a |Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal cyfarfodydd chwarterol gyda'r Cynghorau Tref a Sir ar ffurf Fforwm y Sir ar gyfer trafod materion cyffredin a chodi ymwybyddiaeth o ddatblygiadau'r cyngor. (19)
- Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cynnal asesiad lles o gymunedau Sir y Fflint. Mae hynny wedi hysbysu Cynllun Lles drafft, ac ar ôl ei fabwysiadu y Mai 2018, hwn fydd y Cynllun fydd yn cael ei ddefnyddio gan bartneriaid ar draws y Sir er mwyn datblygu blaenoriaethau a phrosiectau er mwyn

gwella lles (19)

- Pan fydd partneriaeth newydd yn cael ei chreu, gofelir bod ei statws cyfreithiol yn glir, bod ganddi gylch gorchwyl priodol a bod y cynrychiolwyr yn gwybod i ba raddau y gallant rwyngu'r Cyngor. Mae'r Cabinet wedi gosod a chytuno ar brotocol ar gyfer llywodraethu trefniadau gweithio mewn partneriaeth sy'n cynnwys cyfraniad llawn y Pwyllgorau Arolygu a Chraffu priodol a'r Pwyllgor Archwilio. Mae [Hunanasesiadau partneriaeth](#) yn cynnwys asesu ymddygiad, perfformiad, gwerth am arian a gweithdrefnau trefniadau partneriaethau. (20)

Ymgysylltu â rhanddeiliaid yn effeithiol, gan gynnwys dinasyddion unigol a defnyddwyr gwasanaeth

21. Polisi clir o ran y math o faterion y bydd y Cyngor yn ymgynghori'n ystyrion yn eu cylch neu'n cynnwys dinasyddion unigol, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod darpariaeth gwasanaeth yn cyfrannu tuag at gyflawni'r canlyniadau bwriadedig.
22. Sicrhau bod dulliau cyfathrebu'n effeithiol a bod aelodau a swyddogion yn glir o ran eu rolau mewn perthynas ag ymgysylltu cymunedol.
23. Annog, casglu a gwerthuso barnau a phrofiadau cymunedau, dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a sefydliadau o wahanol gefndiroedd, gan gynnwys cyfeiriad at anghenion i'r dyfodol.
24. Gweithredu mecanweithiau effeithiol ar gyfer rhoi adborth er mwyn arddangos sut y cafodd eu barnau eu hystyried.
25. Cydbwyso adborth gan grwpiau rhanddeiliaid mwy gweithgar gyda grwpiau eraill o rhanddeiliaid i sicrhau eu cynwysoldeb.
26. Ystyried buddiannau cenedlaethau o drethdalwyr a defnyddwyr gwasanaeth i'r dyfodol.

- Mae gan y Cyngor fframwaith ymgynghori ac ymgysylltu a chanllawiau dogfen polisi ac mae wedi mabwysiadu set o egwyddorion ymgynghori ac ymgysylltu craidd yn seiliedig ar arferion gorau cenedlaethol. (21,23,24)
- Mae dulliau cyfathrebu yn cael eu hadolygu a'u haddasu'n barhaus er mwyn addasu i dechnolegau newidiol a'u heffeithiau. Mae gan aelodau a chyflogaion rolau atebolrwydd clir; aelodau drwy eu democratiaeth gynrychioliadol a chyflogaion drwy asesiadau ac arolygon mwy strwythuredig a dulliau casglu tystiolaeth ac effeithiau parhaus eraill megis y rhai sy'n bodoli yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. (22)
- Mae'r Cyngor yn ystyried effeithiau a chanlyniadau penderfyniadau ar bob aelod o'r gymuned drwy gynllunio asesu integredig; yn arbennig mewn perthynas â chynllunio cyllidebau a modelau darparu amgen. (25)
- Mae'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau darbodus ynghylch defnyddio adnoddau yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. (26)

B. Egwyddor Graidd: Diffinio deilliannau yn nhermau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

Diffinio deilliannau yn nhermau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

Diffinio deilliannau

27. Cael gweledigaeth glir sy'n ddatganiad ffurfiol cytunedig o bwrpas a chanlyniadau bwriadedig y Cyngor sy'n cynnwys dangosyddion perfformiad priodol sy'n darparu'r sail ar gyfer strategaeth gyffredinol y Cyngor, ynghyd â chynllunio a phenderfyniadau eraill.
28. Pennu'r effaith fwriadedig ar, neu newidiadau ar gyfer rhanddeiliaid gan gynnwys dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth. Gall hyn fod ar unwaith neu dros gyfnod o flwyddyn neu gyfnod hwy.
29. Cyflawni canlyniadau diffiniedig ar sail gynaliadwy o fewn yr adnoddau a fydd ar gael.
30. Canfod a rheoli risgiau o ran cyflawni canlyniadau.
31. Rheoli disgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth yn effeithiol o ran pennu blaenoriaethau a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

- Mae [Cynllun y Cyngor 2017-23](#) ar gael ar wefan y Cyngor. Ailosodwyd Cynllun y Cyngor er mwyn adlewyrchu'r cyfnod gweinyddol newydd. (27, 28)
- Mae'r Cyngor yn pennu nifer o flaenoriaethau iddo'i hun fel partner unigol. Y blaenoriaethau ar gyfer 2017/18 yw: Cyngor Cefnogol, Cyngor Uchelgeisiol, Cyngor sy'n Dysgu, Cyngor Gwyrdd, Cyngor Cysylltiedig a Chyngor sy'n Gwasanaethu. Mae gan bob blaenoriaeth ddatganiad deiliant, targedau cyflawni (fel mesuriadau perfformiad a cherrig milltir) a sylfaen resymegol ar gyfer y flaenoriaeth a ddewiswyd. Mae'r holl flaenoriaethau yn cael eu hadolygu'n flynyddol o ran effaith y newidiadau penodol. (27, 28)
- Mae gan y Cyngor ymagwedd gydnerth tuag at Gynllunio Busnes ar gyfer gwasanaethau cynaliadwy yn cynnwys cynllunio effeithlonrwydd er mwyn ymdopi â thoriadau mewn cyllidebau cenedlaethol a chynnydd mewn galw a phwysau yn lleol. Mae [Strategaeth Ariannol Tymor Canolig](#) – crynodeb 2016/17 y Cyngor yn disgrifio ymagwedd y Cyngor tuag at gynnal gwasanaethau gwerthfawr o fewn y cyfyngiadau ariannol. (29)
- Mae [Strategaeth Ariannol Tymor Canolig](#) a [Strategaeth Cyfalaf a Chynllun Rheoli Asedau 2016 – 2020](#) y Cyngor yn amlinellu'r adnoddau sydd ar gael i gyflawni'r deilliannau. (29)
- Hefyd, mae'r Cyngor wedi pennu cyfres o 'Ddatganiadau Cydnerthedd' ar gyfer pob portffolio, sy'n darparu asesiad mesuredig o gydnerthedd pob maes gwasanaeth. (29, 31)
- Mae rheoli risg i'r Cyngor yn rhan hanfodol o gyflawni amcanion, dyletswyddau statudol, rhaglenni prosiect a newid a phartneriaethau. Mae'n cael ei ystyried yn ystod y broses o ddatblygu a monitro holl flaenoriaethau, prosiectau a Chynlluniau Busnes Portffolio'r Cyngor. Mae risgiau strategol yng Nghynllun y Cyngor yn cael eu monitro'n chwarterol ac adroddir arnynt i'r Pwyllgorau Cabinet, Trosolwg a Chraffu, Mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn

adroddiad bob hanner blwyddyn ar y risgiau hyn. Mae Byrddau Rhaglenni yn monitro'r holl risgiau yn y Cynllun Busnes. ([Polisi a Strategaeth Rheoli Risg](#)) (30)

- Mae Rhaglen Cynllun Busnes Portffolio'r Cyngor yn mesur effeithlonrwydd, yn adolygu effaith (derbynioldeb a chyflenwedd) a chynhelir asesiadau effaith fwy trylwyr pan fo'n briodol. (31)
- Hefyd mae'r Cyngor yn cael ei gefnogi gan nifer o strategaethau corfforaethol sy'n darparu fframwaith clir ar gyfer rheoli adnoddau'r Cyngor a chefnogi cyfnodau o newid a phontio. Y strategaethau yma yw: y [Strategaeth Ariannol Tymor Canolig](#), y [Strategaeth Cyfalaf a'r Cynllun Rheoli Asedau](#), y [Strategaeth Ddigidol](#), y [Strategaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid](#) a'r [Strategaeth Pobl](#). (31)

Buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

32. Ystyried a chydbwysu effaith economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol polisiau, cynlluniau a phenderfyniadau ar y cyd wrth wneud penderfyniadau am ddarpariaeth gwasanaeth.
33. Cymryd golwg mwy hirdymor o ran penderfynu, gan ystyried risg a gweithredu mewn modd tryloyw lle bo gwrthdaro posibl rhwng canlyniadau bwriadedig y Cyngor a ffactorau tymor byr fel y cylch gwleidyddol neu gyfyngiadau ariannol.
34. Pennu budd ehangach y cyhoedd sy'n gysylltiedig â chydbwysu buddion sy'n gwrthdaro rhwng cyflawni'r amryw fuddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, drwy ymgynghori lle bynnag y bo modd, er mwyn sicrhau cyfaddawdau priodol.
35. Sicrhau mynediad teg i wasanaethau.

- Mae'r Cyngor yn gweithio ar egwyddorion cynaliadwyedd Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (WBFG) sy'n cynnwys effeithiau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ei holl amcanion a'i ymrwymadau. (32,33)
- Mae polisi ac ymagwedd pennu cyllideb y Cyngor yn un sy'n amcanu at warchod a chynnal gwasanaethau cyhoeddus gwerthfawr am yr hirdymor (32, 33).
- Mae gan y Cyngor fformat adroddiadau a chanllawiau cefnogi diweddariedig a safonol. Disgwylir i awduron adroddiadau nodi unrhyw risgiau, effeithiau a chamau lliniaru mewn adran o'r adroddiad a elwir yn "Risgiau Allweddol a Chamau Lliniaru". Mae'n rhaid i hynny gynnwys paragraff ym mhrif gorff yr adroddiad er mwyn cadarnhau bod Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (EWLIA), er mwyn cydymffurfio â Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus Deddf Cydraddoldeb 2010, wedi cael ei gynnal. Os na chwblhawyd EWLIA, mae'n ofynnol i awduron nodi pan nad oedd angen un. (32)
- Mae'n rhaid i adroddiadau hefyd ystyried unrhyw oblygiadau o dan [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#). Mae hyn yn gosod dyletswydd datblygiad cynaliadwy a lles ar gyff cyhoeddus, ynghyd â'r angen i fesur perfformiad wrth amcanu tuag at y nodau ac amcanion lles hynny. (32,33 a 34)
- Mae'r rhaglen Gyfalaf flynyddol yn gysylltiedig â [Strategaeth Cyfalaf a Chynllun Rheoli Asedau 2016 – 2020](#) ac mae ar gael ar y wefan (32,33)

- Mae tair rhan i'r Strategaeth, statudol/Rheoleiddiol, Asedau a Gedwir a Buddsoddiadau. Mae'r adran Fuddsoddi ar gyfer cynlluniau newydd sy'n deillio o
- Mae Asesiadau Cydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn cael eu cynnal fel rhan o Asesiad Effaith Integredig ehangach, ac fe'u cyhoeddir mewn perthynas â pholisi a phenderfyniadau busnes yn ogystal â phennu cyllideb. Mae'r rhain wedi cael eu hadolygu er mwyn integreiddio

C. Egwyddor Graidd: Pennu'r ymyriadau angenrheidiol ar gyfer optimeiddio cyflawniadau'r deilliannau a fwriadwyd

Pennu'r ymyriadau angenrheidiol ar gyfer optimeiddio cyflawniadau'r deilliannau a fwriadwyd	
Pennu'r ymyriadau	
36.	Sicrhau bod penderfynwyr yn derbyn dadansoddiad gwrthrychol a thrylwyr o amrywiaeth o opsiynau sy'n dangos sut y byddai canlyniadau bwriadedig yn cael eu cyflawni a chynnwys y risgiau sy'n gysylltiedig â'r opsiynau hynny. Felly sicrhau bod y gwerth gorau'n cael ei gyflawni sut bynnag y darperir gwasanaethau.
37.	Ystyried adborth gan ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth wrth wneud penderfyniadau am welliannau i wasanaethau neu lle nad oes angen gwasanaethau mwyach er mwyn blaenoriaethu galwadau sy'n anghyson â'i gilydd o fewn yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael, gan gynnwys pobl, sgiliau, tir ac asedau a gan gofio effeithiau i'r dyfodol.
	<ul style="list-style-type: none">• Gall trafodaethau rhwng Aelodau a chyflogeion ar anghenion gwybodaeth aelodau er mwyn cefnogi'r broses benderfynu ddigwydd mewn nifer o ffyrdd: yn ffurfiol mewn cyfarfodydd pwyllgor, grŵp Gorchwyl a Gorffen neu weithdy, neu'n anffurfiol mewn sesiwn briffio. (36) Gellir canfod enghreifftiau yn y System Bwyllgor- yn arbennig wrth ystyried cynigion effeithlonrwydd Cynllun Busnes ac adroddiadau ar berfformiad chwarterol.• Yn ystod trafodaethau mewn pwyllgorau, gellir gofyn am wybodaeth ychwanegol. Mae hynny drwy gytuno â'r amserlenni: (36) gellir gweld enghreifftiau yng nghofnodion y pwyllgor.• Mae'n ofynnol i awduron adroddiadau nodi pa ymgynghori oedd ei angen, ac a gynhaliwyd, a beth oedd y canlyniadau. Mae Adran B yn rhoi mwy o fanylion. Mae canllawiau adroddiadau o fewn y templed a'r canllawiau adroddiadau. (37) Nodiadau Cyfarwyddyd.
Ymyriadau cynllunio	
38.	Sefydlu a gweithredu cylchoedd cynllunio a rheoli cadarn sy'n cwmpasu cynlluniau strategol a gweithredol, blaenoriaethau a thargedau.
39.	Ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol wrth bennu sut y dylid cynllunio a chyflawni gwasanaethau a chamau gweithredu eraill.
40.	Ystyried a monitro'r risgiau sy'n wynebu pob partner wrth weithio ar y cyd gan gynnwys y risgiau a rennir.
41.	Sicrhau bod trefniadau'n hyblyg ac yn ystwyth fel y gellir addasu'r mecanweithiau ar gyfer cyflawni allbynnau yn ôl amgylchiadau newidiol
42.	Sefydlu dangosyddion perfformiad lleol priodol (yn ogystal â dangosyddion perfformiad statudol neu genedlaethol eraill) fel rhan o'r broses gynllunio er mwyn canfod sut y dylid mesur perfformiad gwasanaethau a phrosiectau.
43.	Sicrhau bod capasiti'n bodoli i gynhyrchu'r wybodaeth a fyynnir i adolygu ansawdd gwasanaethau'n rheolaidd.
44.	Paratoi cyllidebau'n unol ag amcanion sefydliadol, strategaethau a'r cynllun ariannol tymor canolig.
45.	Llywio gwaith cynllunio adnoddau tymor canolig a hirdymor drwy lunio amcanestyniadau realistig o ran gwariant referniw a chyfalaf sy'n anelu at ddatblygu strategaeth ariannu gynaliadwy.
	<ul style="list-style-type: none">• Mae Amserlen Cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ddilynol yn cael ei hystyried yng Nghyfarfod Blynnyddol y Cyngor sy'n cael ei gynnal bob mis Mai.

Mae Blaenraglen Waith y Cyngor, Cabinet a'r Pwyllgorau yn cael eu hystyried ym mhob cyfarfod Cabinet. Mae pob un o'r chwe phwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ailystyried eu blaenraglen waith ym mhob un o'r cyfarfodydd arferol. Mae hynny yn sicrhau ei bod yn parau i fod yn berthnasol i anghenion y pwyllgor. (38,39)

- Mae cynllunio busnes a chynllunio a monitro amcanion yn gynwysedig yn yr adroddiadau chwarterol ac adroddiadau Cynllun y Cyngor. (38)
- Rhan annatod o gynllunio busnes yw deall a gweithredu yn erbyn risgiau sy'n gysylltiedig â'r busnes. Mae prosesau rheoli risg y Cyngor wedi eu hymgorffori ac maent yn cynnwys risgiau gweithredol, prosiect, strategol a phartneriaethau cydweithredol. Mae model rheoli risg corfforaethol fel y'i disgrifir yn y strategaeth a'r Polisi Rheoli Risg yn ategu'r trefniadau hyn. Mae risgiau strategol y Cyngor yn gynwysedig yng Nghynllun y Cyngor sydd wedi ei ymgorffori yn y prosesau cynllunio busnes portffolio. Mae hynny'n cael ei ategu gan adolygiadau ac archwiliadau allanol. (38)
- Mae [fframwaith ymgynghori ac ymgysylltu a dogfen canllawiau/polisi](#) y Cyngor yn rhoi arweiniad mewn perthynas â chyfranogiad rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Hefyd, mae cydgynhyrchu yn cael ei ddefnyddio fel methodoleg (yn arbennig ym maes gwasanaethau Cymdeithasol) er mwyn cynnwys defnyddwyr yn y broses o gomisiynu gwasanaethau. (39)
- Mae gan y Cyngor amrywiaeth o bartneriaethau sy'n gweithio ar wahanol lefelau. Mae [Rheoli risg](#) yn ystyriaeth bwysig a hanfodol i bob partneriaeth y mae'r Cyngor yn ei arwain. Mae hynny'n cael ei ddangos gan yr hunanasesu partneriaeth y mae'r Partneriaethau Strategol yn eu cynnal bob dwy flynedd er mwyn pennu risgiau/heriau i'r partneriaid a'r bartneriaeth ei hun. (40)
- Cynhelir adolygiad o risgiau a rennir gan y byrddau partneriaeth amrywiol. (40)
- Cynhelir adolygiad rheolaidd o gynlluniau ar lefelau strategol yn ystod y broses fonitro chwarterol. Hefyd, mae Byrddau Rhaglen y Cyngor yn adolygu cynlluniau effeithlonrwydd yn fisol. (41)
- Wrth bennu cyfeiriad a blaenoriaethu adnoddau, mae'r Cyngor yn pennu targedau perfformiad yn erbyn bob blaenoriaeth ac yn eu monitro drwy ddefnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol Cenedlaethol (KPI) a bennir gan Lywodraeth Cymru a'r teulu llywodraeth leol, a dangosyddion lleol a bennir gan y Cyngor. Dangosyddion perfformiad yw 'mesurau llwyddiant' y Cyngor ac maent ar gael yn gyhoeddus i'w gweld gan y Llywodraeth, rheolyddion a'r cyhoedd. (42)
- Mae'r system CAMMS (system reoli perfformiad, risg a phrosiect) yn cefnogi gyda'r gofynion capasiti ar lefel portffolio ac yn gorfforaethol er mwyn adolygu ansawdd gwasanaeth. Mae'r Cyngor hefyd yn ymgysylltu ag amrywiaeth o grwpiau meincnodi megis Cymdeithas dros Ragoriaeth Gwasanaethau Cyhoeddus (APSE), CLAW etc. er mwyn adolygu ansawdd a chynhyrchiant gwasanaethau. (42)
- Mae adroddiadau yn cynnwys canlyniadau perfformiad manwl ac yn amlygu ble mae angen camau cywiro (43).
- Mae cyllidebau'n cael eu paratoi yn unol ag amcanion sefydliadol, strategaethau a'r cynllun ariannol tymor canolig (MTFS) (44).

- Mae'r [MTFS](#) a'r broses pennu cyllideb flynyddol yn amcanu at sicrhau bod penderfyniadau cynllunio yn cael eu gwneud ar sail amcangyfrifon gariant a referniw realistig (45)

Cyflawni'r canlyniadau bwriadedig yn y modd gorau bosibl

46. Sicrhau bod y strategaeth ariannol tymor canolig yn integreiddio ac yn cydbwysu blaenoriaethau gwasanaethau, fforddiadwyedd a chyfyngiadau eraill o ran adnoddau.
47. Sicrhau bod y broses gyllidebu yn hollgynhwysol, gan ystyried cost lawn gweithrediadau dros y tymor canolig a'r tymor hwy.
48. Sicrhau bod y strategaeth ariannol tymor canolig yn gosod y cyd-destun ar gyfer penderfyniadau parhaus mewn perthynas â materion arwyddocaol o ran cyflenwi neu ymatebion i newidiadau yn yr amgylchedd allanol all godi yn ystod y cyfnod cyllidebu er mwyn cyflawni canlyniadau wrth wneud y gorau o'r defnydd o adnoddau.
49. Sicrhau bod 'gwerth cymdeithasol' neu 'fuddion cymunedol' yn cael eu cyflawni drwy gynllunio a chomisiynu gwasanaethau. Mae Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012 yn nodi mai hyn yw "y budd ychwanegol i'r gymuned...y tu hwnt i brynu nwyddau, gwasanaethau a deilliannau'n uniongyrchol"

- Mae'r [Strategaeth Ariannol Tymor Canolig](#) (MTFS) a'r broses pennu cyllideb flynyddol yn integreiddio blaenoriaethau a chyfyngiadau adnoddau. Mae dwy ran i'r MTFS. Mae'r rhan gyntaf yn rhagamcanu'r adnoddau y mae'r Cyngor yn debygol o'u cael yn ystod y tair blynedd nesaf. Mae'r ail ran [Wynebu'r Her Ariannol](#) yn esbonio'r cynlluniau a'r datrysiadau ar gyfer ymdopi ag adnoddau sy'n prinhau yn ystod y cyfnod yma o dair blynedd. (46,47)
- Mae'r broses gyllidebu flynyddol a'r cynlluniau busnes Portffolio yn ystyried blaenoriaethau tymor canolig a hirdymor yr MTFS wedi eu halinio â'r adnoddau fydd ar gael gan y Cyngor. (46,47,48)
- Mae'r [Strategaeth Caffael](#) a'r [Rheolau Caffael Contractau](#) yn sicrhau bod digon o bwyslais yn cael ei roi ar 'fudd cymunedol'. (49)
- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu set o Fuddion Cymunedol er mwyn ategu gweithgareddau caffael, grantiau a gweithgareddau cymunedol. (49)

D. Egwyddor Graidd: Datblygu capasiti'r endid, yn cynnwys gallu ei arweinyddion a'r unigolion sy'n rhan ohono

Datblygu capasiti'r endid, yn cynnwys gallu ei arweinyddion a'r unigolion sy'n rhan ohono

Datblygu capasiti'r endid

50. Adolygu gweithrediadau, perfformiad a'r defnydd o asedau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol.
51. Gwella'r defnydd o adnoddau drwy ddefnyddio technegau mewn modd priodol, fel meincnodi ac opsiynau eraill, er mwyn pennu sut y mae adnoddau'r Cyngor yn cael eu dyrannu fel bod canlyniadau'n cael eu cyflawni mewn modd effeithiol ac effeithlon.
52. Adnabod buddion partneriaethau a gweithio ar y cyd lle gellir cyflawni gwerth ychwanegol.
53. Datblygu a chynnal cynllun effeithiol ar gyfer y gweithlu er mwyn dyrannu adnoddau mewn modd mwy strategol.

- Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn rhoi gwybodaeth fanwl am gynlluniau'r Cyngor a'r effeithiau y mae'n dymuno eu gweld. (50,51)
- Mae'r Adroddiad Perfformiad blynyddol yn rhoi darlun o berfformiad a chynnydd cyffredinol y Cyngor yn y modd y mae'n gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei wasanaethau'n unol â Chynllun y Cyngor. (50,51)
- Hefyd, mae Strategaeth Cyfalaf a Chynllun Rheoli Asedau'r Cyngor fel y cytunwyd arnynt gan y Cyngor Sir yn Ionawr 2016, yn darparu rhagolwg tymor hirach (10 mlynedd), a bydd yn cael ei adolygu yn gyfnodol. (50,51)
- Mae Strategaethau Pobl, digidol a Chwsmeriaid y Cyngor yn cael eu hadolygu a'u datblygu fel rhan o broses cynllunio a monitro Portffolio. (50)
- Mae'r Cyngor yn ymgysylltu ag amrywiaeth o grwpiau meincnodi megis Cymdeithas dros Ragoriaeth Gwasanaethau Cyhoeddus, CLAW, CIPFA etc. er mwyn adolygu ansawdd a chynhyrchiant gwasanaethau. (51)
- Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn adolygu perfformiad y Cyngor a'i drefniadau gwerth am arian drwy eu gwaith Asesu Gwelliant ac maent yn adrodd am eu canfyddiadau mewn amryw o lythyrau a'u Hadroddiad Gwella Blynyddol. (51,52)
- Gellir gweld buddion cydweithredu â phartneriaid yng ngwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a'i ragflaenydd, y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Sir y Fflint yw arweinydd Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru, ar ôl cydnabod bod y maint a'r gost y tu hwnt i gapasiti un awdurdod lleol. Mae gwerth partneriaeth a chydweithredu yn cael ei gydnabod gan y Cyngor fel rhywbeth sy'n helpu i gynnal gwasanaethau ac sy'n ychwanegu gwerth i raglenni megis ymyrraeth ac atal, pan na all un partner ar ei gen ei hun gyflawni'r newid sydd ei angen. (52)
- Mae [Strategaeth Pobl](#) y Cyngor wedi cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Cabinet a'r Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol a Throsolwg a Chraffu. (53)

- Datblygwyd capasiti cyflogeion a methodoleg sicrwydd gan y Cyngor er mwyn ategu rheoli newid, gan ddefnyddio technegau megis rheoli cynllun pontio, cynlluniau olyniaeth gweithlu a chydnerthedd gwasanaethau a datganiadau effeithlonrwydd. (53)

Datblygu galluogrwydd yr arweinyddiaeth ac unigolion eraill

54. Datblygu protocolau i sicrhau bod arweinyddion sydd wedi'u hethol a'u penodi yn negodi â'i gilydd ynghylch eu rolau perthnasol yn fuan yn y berthynas a bod dealltwriaeth a rennir o rolau ac amcanion yn cael ei chynnal.
55. Cyhoeddi datganiad sy'n pennu'r mathau o benderfyniadau sy'n cael eu dirprwyo a'r rheiny sy'n cael eu cadw ar gyfer proses benderfynu'r corff llywodraethu ar y cyd.
56. Sicrhau bod gan yr arweinydd a'r prif weithredwr rolau sydd wedi'u diffinio'n glir ac sy'n arbennig iddynt hwy o fewn strwythur, lle mae'r prif weithredwr yn arwain yr awdurdod wrth weithredu strategaeth a rheoli'r modd y cyflawnir gwasanaethau ac allbynnau eraill a osodir gan aelodau, a bod y naill a'r llall yn darparu rhwystrau a gwrthbwysau ar gyfer awdurdod y naill a'r llall.
57. Datblygu galluoedd aelodau ac uwch reolwyr o ran cyflawni arweinyddiaeth effeithiol a rennir ac i alluogi'r Cyngor i ymateb yn llwyddiannus i alwadau newidiol o ran materion cyfreithiol a pholisïau yn ogystal â newidiadau a risgiau economaidd, gwleidyddol ac amgylcheddol.
58. Sicrhau bod aelodau a staff yn cael mynediad i sesiynau ymsefydlu priodol sydd wedi'u haddasu ar gyfer eu rôl a bod gweithgareddau hyfforddiant a datblygu parhaus ar gael sy'n cyfateb i ofynion unigol a sefydliadol a'u bod yn cael eu hannog.
59. Sicrhau bod gan aelodau a swyddogion y sgiliau, y wybodaeth, yr adnoddau a'r cymorth priodol i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau a sicrhau eu bod yn gallu diweddarau eu gwybodaeth yn barhaus.
60. Sicrhau datblygiad personol, sefydliadol a ledled y system drwy rannu dysgu, gan gynnwys gwersi a ddysgwyr yng ngolau gwendidau mewnol ac allanol o ran llywodraethu.
61. Sicrhau bod strwythurau yn eu lle i annog cyfranogiad cyhoeddus.
62. Cymryd camau i ystyried effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth ei hun a sicrhau bod arweinwyr yn agored i adborth adeiladol drwy adolygiadau cymheiriaid ac arolygiadau.
63. Dal staff yn atebol drwy adolygiadau rheolaidd o berfformiad sy'n ystyried anghenion o ran hyfforddiant neu ddatblygu.
64. Sicrhau bod trefniadau yn eu lle i gynnal iechyd a lles y gweithlu ac i gefnogi unigolion i gynnal eu lles corfforol a meddyliol eu hunain.

- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cyfansoddiad, a adolygwyd ddiwethaf ym Mai 2016, sy'n cynnwys Cynllun Dirprwyo sy'n nodi'r penderfyniadau hynny a neilltuwyd i'w penderfynu gan y Cyngor Sir, y materion dewis lleol hynny a benderfynir gan y Cyngor Sir, y penderfyniadau fyd yn cael eu gwneud gan y Cabinet neu ei aelodau unigol, a'r rhai a ddirprwir i'r Prif Swyddogion a'r uwch swyddogion. Caiff materion yn ymwneud â dewis lleol eu hadolygu yng Nghyfarfod Blyneddol y Cyngor. Yn y cyswllt hwn, yr egwyddor sylfaenol a ddefnyddir i sefydlu'r rheolau hyn yw mai'r Cyngor llawn sy'n pennu'r cyfeiriad strategol drwy fabwysiadu polisïau a chyllideb, y Pwyllgor Gweithredol sy'n gwneud y prif benderfyniadau o fewn y fframwaith polisi a chyllideb cyffredinol ac sy'n helpu i ddatblygu polisïau newydd a'r Swyddogion sy'n gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd o fewn y fframwaith polisi a chyllideb. Mae'r Cynllun Dirprwyo yn destun adolygiad rheolaidd. (54,55)

- Mae'r Cyfansoddiad yn nodi rôl yr Arweinydd a'r Pwyllgor Gweithredol yn glir ac, yn benodol, yn ei gwneud yn glir eu bod yn gyfrifol am gynnig arweinyddiaeth strategol effeithiol i'r Cyngor a sicrhau bod y Cyngor yn ymgymryd yn llwyddiannus â'i gyfrifoldebau cyffredinol dros waith y sefydliad cyfan. Mae hefyd yn sicrhau, drwy Reolau Gweithdrefnau Ariannol a'r Cynllun Pwerau Dirprwyedig, fod y modd y mae'r Cyngor yn cynnal ei fusnes o ddydd i ddydd yn cael ei reoli'n effeithiol drwy sicrhau cymeradwyaeth yr Aelodau i benderfyniadau sy'n wahanol i'r arfer neu benderfyniadau y tu allan i ffiniau diffiniedig. (56)
- Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys enwau a disgrifiad o bortffolios yr Arweinydd ac Aelodau eraill o'r Pwyllgor Gweithredol. Cytunwyd ar eu rolau priodol ac fe'u cofnodwyd. Sefydlwyd disgrifiadau o rolau holl gadeiryddion ac is-gadeiryddion y Pwyllgorau Arolygu a Chraffu, pwyllgorau rheoleiddio ac Aelodau'r Pwyllgorau hefyd, ac fe'u cofnodwyd yn yr un modd (57).
- Yn dilyn gweithredu strwythur uwch reoli newydd yn 2012, mae'r Cyngor mewn gwell sefyllfa i ymateb yn llwyddiannus i newidiadau o ran galwadau cyfreithiol a galwadau polisi. (57)
- Mae'r rheolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod pob aelod newydd o staff yn cymryd rhan mewn rhaglen gynefino. Mae rhestr wirio gyffredinol sy'n cael ei chwblhau yn y cyswllt hwn ynghyd â sesiynau cynefino penodol ar gyfer gwasanaethau gwahanol. Mae'r sesiwn anwytho cyffredinol yn cael ei darparu i grwpiau o gyflogaion newydd, ac mae'n cynnwys modiwlau ar ofal cwsmeriaid a llywodraethu. (58)
- Ar ôl etholiadau'r Cyngor Sir bob 4 blynedd, caiff rhaglen gynefino ei pharatoi a'i chyflwyno i'r Aelodau. Mae'r Cyngor yn sicrhau bod Aelodau yn cael y sgiliau gofynnol i ymgymryd â'u rolau a bod y sgiliau hynny'n cael eu datblygu'n rheolaidd i wella perfformiad drwy:- (59)
 - Rhaglenni datblygu a hyfforddi, gan gynnwys y rhai a ddarperir gan sefydliadau proffesiynol.
 - Hyfforddiant cynefino Aelodau.
 - System fentora i Aelodau.
 - Rhaglen flynyddol i ddatblygu Aelodau.
 - Strategaeth Datblygu Aelodau'r Cyngor.
 - Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i Aelodau.
 - Hyfforddiant penodol i Aelodau ar gynllunio, trwyddedu, archwilio a rheoli risg.
- Mae Adran 11 ac Atodiad 1 Cyfansoddiad y Cyngor yn esbonio rolau Pennaeth Gwasanaethau am Dâl, Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyllid (Swyddog S151) a Phennaeth statudol Gwasanaethau Democrataidd. Hefyd, datblygwyd disgrifiadau swydd ar gyfer pob un o Uwch Swyddogion y Cyngor ac mae'r strwythur uwch reoli'n cael ei adolygu'n barhaus er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n addas.
- Ar gyfer cyflogaion mae yna fframwaith werthuso yn seiliedig ar gymhwysedd a ddefnyddir i fonitro a mesur perfformiad, cymhwysedd, cyflawni amcanion o fewn y gwasanaethau ac unrhyw anghenion hyfforddi a datblygiad personol. Mae cynllunio olyniaeth yn rhan allweddol o reoli sgiliau a gwybodaeth yn y dyfodol. Argaeledd hyfforddiant a mentora. (59)
- Mae datblygu cynlluniau gweithredu fel ymateb i faterion a godir gan reoleiddwyr y Cyngor, y pwyslais a rodir ar hysbysu a chynnwys Aelodau mewn datblygiadau newydd drwy weithdai a defnyddio gwerthusiadau swyddogion, yn arwydd o ymrwymiad y Cyngor

i fod yn 'sefydliad sy'n dysgu' (60)

- Mae'r Cyngor yn cynnal cyfarfodydd ymgynghori â'r cyhoedd ar gynigion cyllid yn flynyddol, yn ogystal â chynnal cynllun canmol a chwyno a phrotocolau statudol ar gyfer ymgysylltu cyhoeddus o dan Drosolwg a Chraffu (61).
- Mae'r Cyngor yn croesawu adolygiadau cymheiriaid mewn perthynas â threfniadau llywodraethu a darparu gwasanaethau er mwyn gwella effeithiolrwydd arweinyddiaeth. (62)
- Mae'r Cyngor yn sicrhau bod strwythurau datblygu gyrfa ar waith i bob aelod o staff ac mae'n annog pawb i gymryd rhan drwy: (62,63)
 - Ddatblygu fframwaith Rheoli Perfformiad Corfforaethol
 - Datblygu Strategaeth Pobl
 - Ad-drefnu uwch reolwyr y Cyngor
 - Gwerthusiadau blynyddol ar sail cymhwysedd a datblygiad proffesiynol parhaus
- Mae'r Cyngor yn sicrhau bod cyflogeion yn cael y sgiliau gofynnol i ymgymryd â'u rolau a bod y sgiliau hynny'n cael eu datblygu'n rheolaidd i wella perfformiad drwy: (63)
 - Gynnal sesiynau arfarnu staff fel rhan o system rheoli perfformiad sydd hefyd yn nodi anghenion hyfforddi a dulliau o'u diwallu
 - Hyfforddiant cynefino
 - Rheoli talent
 - Datblygu cymwyseddau arweinyddiaeth a rheoli ymddygiad
 - Rhaglenni datblygu a hyfforddi, gan gynnwys y rhai a ddarperir gan sefydliadau proffesiynol.
 - Rhaglen Datblygu Rheolwyr
 - Academi Uwch Reolwyr
- Mae'r holl bolisiau AD a'r Polisiau Iechyd a Lles ar gael ar y Wybodrwyd fewnol. Mae'r rhain yn cynnwys pecynnau cymorth i Reolwyr, cymorth Iechyd Galwedigaethol; datblygu/adolygu polisiau e.e. Cam-drin Cyffuriau ac Alcohol / cam-drin Domestig. Mae'r Cyngor hefyd wedi cyflwyno Rhaglen Gymorth i Gyflogeion, 'Carefirst', sy'n rhoi cymorth 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. (64)

E. Egwyddor Graidd: Rheoli risg a pherfformiad drwy reoli mewnol cydnerth a rheolaeth ariannol gref

Rheoli risg a pherfformiad drwy reoli mewnol cydnerth a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref

Rheoli risg

65. Cydnabod bod rheoli risg yn rhan annatod o bob gweithgaredd a rhaid ystyried hyn ym mhob agwedd ar wneud penderfyniadau.
66. Gweithredu trefniadau rheoli risg cadarn ac integredig a sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol.
67. Sicrhau bod cyfrifoldebau o ran rheoli risgiau unigol yn cael eu neilltuo'n glir.

- Ym mis Mehefin 2015, cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio ddull diwygiedig o ymdrin â rheoli risg, sy'n cynnwys: (65)
 - Disgrifiadau manylach o risg gan gynnwys esboniad o effaith y 'risg' os caiff ei wireddu a datblygu'n 'broblem' y mae angen ei datrys.
 - Matrics risg mwy soffistigedig, gan gyflwyno matrics 6 x 4 yn lle'r matrics 3 x 3 ar gyfer tebygolrwydd ac effaith; rhoi mwy o gyfle i ddangos sut y mae'r risg yn cynyddu neu'n lleihau gan ddibynnu ar lwyddiant unrhyw gamau lliniaru ac effaith amgylchiadau allanol.
 - Canllawiau mwy eglur ar gyfer uwchgyfeirio'r risg a'i adolygu/cofnodi; po fwyaf yw'r risg, po amlaf y caiff ei adolygu.
 - Fformat gwell ar gyfer nodi risgiau newydd a risgiau sy'n dod i'r amlwg a chaniatáu i'r risg gael ei 'dileu' ar ôl cymryd camau lliniarol neu ar ôl iddi gael ei gwireddu fel problem y mae angen ei datrys.
 - Rhoi lle mwy blaenllaw i 'risgiau' yn adroddiadau'r Cyngor
- Caiff risgiau gweithredol eu nodi a'u monitro drwy'r cynlluniau a'r strategaethau ategol o fewn eu meysydd gweithredola drwy'r byrddau prosiect/rhaglen, fel y bo'n briodol. Caiff y byrddau priodol wybod am risgiau partneriaeth a risgiau prosiect a nhw fydd yn eu nodi. (65,66)
- Mae'r Cyngor wedi nodi a gwerthuso ei risgiau strategol mewn perthynas â'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun y Cyngor. Y rhain yw sylfaen cofrestr risg strategol y Cyngor. Mae atebolrwydd am berchnogaeth risg wedi ei gofnodi'r glir yn y system CAMMS ar gyfer yr holl risgiau strategol. Hefyd, mae perchnogion risgiau'r Cynllun Busnes Portffolio wedi eu nodi'r glir ar y tracwyr risg. Mae risgiau strategol yn cael eu cynnwys yn Adroddiadau Monitro'r Cynllun y Cyngor a gyflwynir bob chwarter i'r Cabinet a'r Pwyllgorau Arolygu a Chraffu perthnasol. Manylir ar atebolrwydd am risgiau gweithredol mewn cynlluniau gwasanaeth unigol, a sefydlwyd gweithdrefnau esgoli clir er mwyn esgoli o risg gweithredol i risg strategol. Yn ogystal â hyn, mae'r Pwyllgor Archwilio'n cael adroddiad ddwywaith y flwyddyn sy'n cynnwys crynodeb/trosolwg o'r risgiau strategol, ac mae'n gofyn am sicrwydd mewn perthynas â chamau a gymerir er mwyn lleihau risgiau. (66,67)

Rheoli perfformiad

68. Monitro'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau'n effeithiol gan gynnwys cynllunio, manylebau, cyflawni ac adolygiadau annibynnol ar ôl eu gweithredu.

69. Gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar ddadansoddi a chyngor perthnasol a chilir gan amlygu'r goblygiadau a'r risgiau sy'n rhan annatod o sefyllfa a rhagolygon ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol y Cyngor.
70. Sicrhau bod swyddogaeth graffu neu drosolwg effeithiol yn ei lle sy'n annog herio a dadlau adeiladol mewn perthynas â pholisïau cyn, yn ystod ac ar ôl gwneud penderfyniadau, gan wella perfformiad y Cyngor ac unrhyw sefydliad y mae'n gyfrifol amdano.
71. Darparu adroddiadau rheolaidd i aelodau ac uwch reolwyr ar gynlluniau darparu gwasanaethau ac ar gynnydd tuag at gyflawni canlyniadau.
72. Sicrhau bod cysondeb rhwng cyfnodau pennu manylion (fel cyllidebau) ynghyd ag adrodd ar ôl eu gweithredu (e.e. datganiadau ariannol).

- Mae cynlluniau effeithlonrwydd busnes portffolio yn canolbwyntio ar ddiwygio gwasanaeth drwy leihau costau gweithredu, moderneiddio a gwella. Mae cynlluniau busnes portffolio a'r tracio effeithlonrwydd cysylltiedig yn cael eu hamserlennu i gael eu hawtomeiddio drwy system Reoli Perfformiad CAMMS. Mae adolygiad a dysgu ôl-weithredu yn cael ei gynnal ar lefel prosiect, a hefyd yn fwy cyfunol gan dîm y Prif Swyddog. (68)
- Datblygwyd asesiadau effaith integredig gan y Cyngor er mwyn adolygu goblygiadau, risgiau a chamau lliniaru ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol, er mwyn sefydlu model tryloywder cydlynol ac ystyriol er mwyn cynorthwyo'r broses benderfynu. (69)
- Mae gan y Cyngor chwe phwyllgor Trosolwg a Chraffu (Cymuned a Menter; Adnoddau Corfforaethol; Addysg ac Ieuenctid; Yr Amgylchedd, Newid Sefydliadol; ac Iechyd a Gofal Iechyd), sydd â chydbwysedd gwleidyddol ac sy'n cynnwys 15 o aelodau etholedig ar bob un. Mae pob un yn gweithredu fel cyfaill beirniadol, gan gynnig her adeiladol er mwyn cyfrannu at wella gwasanaethau'n barhaus. Ail-luniwyd telerau'r pwyllgorau, a daeth hynny i rym ar ôl Cyfarfod Blynyddol y Cyngor 2015, yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o strwythur y pwyllgor. Rôl Trosolwg a Chraffu yw:
 - Sicrhau bod y Cabinet yn atebol,
 - Cynorthwyo o ran gwella datblygu polisïau Cyngor,
 - Monitro'r gwasanaethau a ddarperir; a
 - Chyfrannu at wella'r gymuned leol.

Cyflawnir y rôl hon drwy ymgynghori â'r Pwyllgor Gweithredol a Phrif Swyddogion a hefyd drwy gael y 6 Phwyllgor Arolygu a Chraffu swyddogaethol i alw penderfyniadau'r Pwyllgor Gweithredol i mewn. Mae pob un o'r Pwyllgorau hynny'n helpu i fonitro a rheoli perfformiad drwy ystyried eitemau priodol fel canlyniadau dangosyddion ac amcanion perfformiad, nodi risgiau a'u lliniaru. Mae rhaglenni gwaith Trosolwg a Chraffu yn cael eu diweddarau a'u cyhoeddi yn rheolaidd. Mae cyfranogiad y pwyllgorau Trosolwg a Chraffu mewn perthynas â Gwella a Pherfformiad yn swyddogaeth allweddol, a chyflwynir adroddiadau i bob un o'r pwyllgorau yn chwarterol o leiaf. Mae'r aelodau hefyd yn eistedd ar Fyrddau Rhaglen ble caiff cynnydd a deilliannau eu monitro yn erbyn cynlluniau darparu gwasanaethau. (70,71)

- Mae agendau a chofnodion cyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ac mae Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu yn cael ei gyhoeddi pob hydref. (70,71)

- Mae prosesau monitro cyllid ac adroddiadau'r Cyngor yn sicrhau bod yna gysondeb rhwng camau manylebau a chyllidebau, ac mae adroddiadau ôl-weithredu mewn datganiadau ariannol, adroddiadau monitro cyllidebau ffurfiol yn cael eu cyflwyno i Aelodau yn fisol yn y pwyllgor Cabinet a'r Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol a Throsolwg a Chraffu. (72)

Rheolaeth Fewnol Gadarn

73. Cysoni'r strategaeth rheoli risg a pholisïau ar reolaeth fewnol gyda chyflawni amcanion.
74. Gwerthuso a monitro'r modd y mae risgiau'n cael eu rheoli a rheolaeth fewnol yn rheolaidd.
75. Sicrhau bod trefniadau gwrth-dwyll a gwrth lygredigaeth effeithiol yn eu.
76. Sicrhau bod yr archwilydd mewnol yn darparu sicrwydd ychwanegol o ran digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol y fframwaith llywodraethu, rheoli a rheolaeth risg.
77. Sicrhau bod pwyllgor archwilio neu grŵp neu swyddogaeth gyfatebol sy'n annibynnol o'r bwrdd gweithredol ac sy'n atebol i'r corff llywodraethu yn darparu ffynhonnell bellach o sicrwydd effeithiol o ran trefniadau ar gyfer rheoli risg a chynnal amgylchedd rheoli effeithiol ac y dylid gwrandao ar yr argymhellion a gweithredu arnynt

- Mae Strategaeth a Pholisi Rheoli Risg y Cyngor a rheoliadau mewnol eraill (ariannol, cyfreithiol, gweithlu) wedi eu halinio â chyflawni amcanion y Cyngor yng Nghynllun y Cyngor yn effeithiol ac effeithlon, a rhai'r Cynllun Busnes portffolio a chynlluniau strategol portffolio eraill a chynlluniau gwasanaethau unigol. (73)
- Mae'r Strategaeth a Pholisi Rheoli Risg yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio; mae eu deilliannau a'u heffeithlonrwydd yn cael eu hadolygu o leiaf bob hanner blwyddyn drwy'r adroddiadau risg strategol. Hefyd, mae'r Archwiliad Mewnol yn cynnal adolygiadau penodol rheolaidd o effeithlonrwydd y Strategaeth Rheoli Risg.
- Mae cydymffurfiaeth â Chod Ymarfer Rheoli Risg Twyll a Llygredigaeth (CIPFA 2014) yn cael ei asesu yn ystod pob adolygiad, mae diffyg cydymffurfiaeth yn cael ei glustnodi ac mae camau yn cael eu cymryd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth yn unol â [Strategaeth Gwrth-Dwyll a Llygredigaeth Corfforaethol](#). (75)
- Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cael ei ddarparu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) ac yn unol â datganiad CIPFA ar Rôl Pennaeth Archwilio Mewnol. Mae Archwilio Mewnol yn 'cydymffurfio'n gyffredinol' â gofynion PSIAS yn ôl hunanasesiad ac asesiad allanol yn 2016/17, ac mae hynny'n golygu bod y strwythurau, polisïau a gweithdrefnau perthnasol yr adran, yn ogystal â'r prosesau a ddefnyddir i'w cymhwyso, yn cydymffurfio â gofynion y Safonau a'r Cod Moesegau ym mhob agwedd o bwys. (76)
- Mae gan y Cyngor Bwyllgor Archwilio sy'n cynnwys 7 Aelod ac sydd â chydbwysedd gwleidyddol. Daw'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd o'r gwrthbleidiau, Cynghorwyr annibynnol neu aelodau lleeg, wedi eu dewis gan y Pwyllgor ei hun. Mae'n cyfarfod yn rheolaidd ac yn cael cyngor gan Reolwr Archwilio Mewnol y Cyngor. Fel arfer bydd cynrychiolwyr archwilwyr allanol y Cyngor yn bresennol hefyd. Mae pob Aelod yn cael hyfforddiant a dim ond dirprwyon hyfforddedig a ganiateir. Cefnogir y Pwyllgor Archwilio ymhellach i gyflawni ei swyddogaethau

drwy:

- Wneud trefniadau priodol i ddarparu swyddogaeth Archwilio Mewnol digonol ac effeithiol a sicrhau trefniadau adrodd digonol i ddiogelu ei annibyniaeth.
- Cynllun Archwilio Mewnol cyfredol sy'n seiliedig ar risg.
- Aseidiadau Risg systematig ym mhob agwedd ar waith y Cyngor; ar lefel strategol sy'n hybu blaenoriaethau gwella'r Cyngor ac ar lefel weithredol y Prif Swyddogion (77)

Rheoli Data

78. Sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer casglu, storio, defnyddio a rhannu data, gan gynnwys prosesau i ddiogelu data personol.
79. Sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle ac yn gweithredu'n effeithiol wrth rannu data â chyrrff eraill.
80. Mynd ati'n rheolaidd i adolygu ac archwilio ansawdd a chywirdeb y data a ddefnyddir wrth wneud penderfyniadau a monitro perfformiad.

- Mae'r Fframwaith Rheoli Data a'r gweithdrefnau ar gael i'r holl gyflogeion drwy Wybodrwyd mewnol y Cyngor. (78)
- Mae Diogelu Data yn rhan o gylch gwaith y Rheolwr Rheoli Gwybodaeth. O dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol diwygiedig (GDPR), mae yna swydd Swyddog Diogelu Data statudol y mae'n rhaid iddi fod yn annibynnol ac adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr. Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Diogelu Data wedi cael eu pennu i'r Rheolwr Rheoli Gwybodaeth ac Archwilio Mewnol, ac mae'r rôl wedi cael ei rhannu er mwyn sicrhau craffu annibynnol. Mae adnoddau ychwanegol wedi cael eu dyrannu er mwyn cynorthwyo gweithredu GDPR ac mae cynnydd da yn cael ei wneud tuag at ei roi ar waith ym Mai 2018 (78).
- Mae polisiâu a gweithdrefnau diogelu data ar gael ar y wefan: (78) <http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Data-Protection-and-Freedom-of-Information/Data-Protection.aspx> <http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Contact-Us/Privacy-Notice.aspx>
- Mae yna dempled ar gyfer Trefniadau Prosesu Data, ac mae'n ofynnol i bob Rheolwr anfon fersiynau terfynol i'r Tîm Rheoli Gwybodaeth i'w cadw'n fewnol. (78)
- Mae'r Cyngor wedi llofnodi Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI). Mae'n rhaid cymeradwyo pob Protocol Rhannu Gwybodaeth (ISP) yn unol â gofynion WASPI. Mae log o bob ISP yn cael ei ddal yn fewnol, ond, mae hefyd ar gael ar wefan WASPI yn <http://www.waspi.org/> (79)
- Er mwyn cydymffurfio â gweithdrefnau dilysu Data, mae'n rhaid asesu pob system TG newydd yn erbyn Manyleb Technegol TG, ac mae hynny yn cynnwys dilysu Data. Bydd Cyflenwyr yn ymateb yn gydymffurfiol, rhannol gydymffurfiol neu'n anghydymffurfiol. Yna bydd Rheolwyr Gwasanaethau Unigol yn

penderfynu bwrw ymlaen neu beidio yn seiliedig ar ymateb y Cyflenwr. (78,79,80)

- Mae'r Cyngor yn destun asesiad diogelwch annibynnol blynyddol er mwyn cysylltu â Rhwydwaith y Sector Cyhoeddus (PSN). (78)
- Mae ansawdd a chywirdeb y data yn cael ei wirio mewn nifer o ffyrdd: mae data perfformiad yn cael ei gynhyrchu drwy system CAMMS (mae rheoliadau mewnol a rheolau yn cael eu rhagnodi gan y Cyngor) ac yn destun gwiriad ansawdd er mwyn sicrhau 'synnwyr' a darllenadwyedd. Hefyd, mae cyrff eraill yn cynnal gwiriadau allanol, megis Swyddfa Archwilio Cymru, ac Uned Ddata Llywodraeth Leol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau. (80)

Rheolaeth gref dros arian cyhoeddus

81. Sicrhau bod rheolaeth ariannol yn cefnogi cyflawniad hirdymor canlyniadau ynghyd â pherfformiad ariannol a gweithredol yn y tymor byr.
82. Sicrhau bod rheolaeth ariannol tra datblygedig wedi'i hintegreiddio ar bob lefel gynllunio a rheolaeth, gan gynnwys rheoli risgiau a rheolaethau ariannol.

- Mae gan y Cyngor [Strategaeth Ariannol Tymor Canolig](#) sy'n cael ei chyhoeddi ar y wefan. (81)
- Mae dwy ran i'r strategaeth, mae'r rhan gyntaf yn rhagamcanu'r adnoddau y mae'r Cyngor yn debygol o'u cael yn ystod y tair blynedd nesaf, ac mae'r ail ran yn esbonio'r cynlluniau a'r datrysiadau ar gyfer ymdopi ag adnoddau sy'n prinhaus. (81)
- Mae'r cynlluniau effeithlonrwydd busnes yn un o'r tair elfen yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, gan yn canolbwyntio ar ddiwygio gwasanaeth drwy leihau costau gweithredu, moderneiddio a gwella. (82)
- Mae proses y Cyngor ar gyfer pennu ei gyllideb refeniw blynyddol yn cael ei esbonio yn Rheolau Gweithdrefnau Cyllideb a Pholisi yn Rhan 4 y Cyfansoddiad. Pan fo'r Cyngor yn pennu ei gyllideb, mae aelodau etholedig yn ystyried lefel y risg a'r ansicrwydd mewn perthynas â'i amcangyfrifon cyllidebol yng nghydestun yr hinsawdd economaidd sy'n bodoli a'r galw am wasanaethau cyhoeddus. (82)
- Mae'r Cyngor yn gweithredu cynllun o gyllidebau wedi'u dirprwyo gyda chymorth y tîm Cyllid Corfforaethol sy'n cynnwys timau cyllid canolog a chyllid gwasanaethau sy'n cynorthwyo rheolwyr cyllid. Mae adroddiadau monitro cyllidebau refeniw, yn cynnwys rhagolygon blwyddyn gyfan, yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet a'r Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol a Throsolwg a Chraffu yn fisol. Mae adroddiadau monitro Rhaglen Gyfalaf yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet a'r Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol a Throsolwg a Chraffu yn chwarterol. Yn y ddwy achos, mae'r adroddiadau yma yn nodi rhesymau dros amrywiadau ac yn nodi unrhyw gamau cywiro a gynigir. (82)
- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymarfer Rheoli Trysordy Gwasanaethau Cyhoeddus Sefydliad Siartredig Cyfrifyddion Cyllid Cyhoeddus .

(CIPFA). Mae Rheoli Trysorfa yn cael ei weithredu yn unol â Pholisi a Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorfa'r Cyngor a'r Arferion Rheoli Trysorfa, sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol. Mae'r holl fenthyca a chyllidebu hirdymor yn cael ei wneud yn unol â Chod Darbodusrwydd CIPFA. Cyflwynir adroddiadau Rheoli Trysorfa i'r Pwyllgor Archwilio, y Cabinet a'r Cyngor yn chwarterol. (82)

- Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyhoeddi [Adroddiad Cydnerthedd Ariannol](#) y Cyngor (cyhoeddwyd
- Mae'r Cyngor wedi sefydlu set interim o ddangosyddion perfformiad ar gyfer y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig; ac mae detholiad ohonynt wedi eu gosod ac yn cael eu monitro drwy

F. Egwyddor Graidd: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol

Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol

Gweithredu arfer dda o ran bod yn dryloyw

83. Ysgrifennu a chyfathrebu adroddiadau ar gyfer rhanddeiliaid cyhoeddus ac eraill mewn dull dealladwy sy'n briodol ar gyfer y gynulleidfa fwriadedig a sicrhau eu bod yn hawdd cael mynediad atynt a'u cwestiynu.
84. Cyflawni cydbwysedd rhwng darparu digon o wybodaeth i fodloni galwadau o ran tryloywder a hybu craffu cyhoeddus gan sicrhau nad yw'n ormod i'w ddarparu ac i ddefnyddwyr ei deall.

- Mae'r Cyngor yn rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl ar wefan y Cyngor, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae fformat adroddiadau wedi cael ei ddiwygio er mwyn gwneud adroddiadau'n symlach a byrrach, ac erbyn hyn mae geirfa o dermau technegol yn gynwysedig. Hefyd, mae'r canllawiau llunio adroddiadau ar gyfer awduron adroddiadau wedi eu diweddarau. Mae [Cynllun cyhoeddi'r Cyngor](#) o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ar gael ar y wefan, fel y gall y cyhoedd a rhanddeiliaid weld pa wybodaeth y gellir cael mynediad iddi. (83,84)
- Mae fersiynau hawdd eu darllen o strategaethau a dogfennau cyhoeddus yn cael eu cyhoeddi ar y wefan pan fo'n bosibl. (83,84)

Gweithredu arfer dda o ran adrodd

85. O leiaf yn flynyddol, adrodd ar berfformiad, gwerth am arian a stiwardiaeth adnoddau.
86. Sicrhau bod gan berchnogion ac uwch reolwyr berchnogaeth dros y canlyniadau.
87. Sicrhau trefniadau cadarn ar gyfer asesu'r graddau y mae'r egwyddorion a gynhwysir yn y Fframwaith wedi cael eu gweithredu, a chyhoeddi'r canlyniadau ar yr asesiad hwn gan gynnwys cynllun gweithredu ar gyfer gwella a thystiolaeth i arddangos llywodraethu da (datganiad llywodraethu blynyddol).
88. Sicrhau bod y Fframwaith yn cael ei weithredu mewn perthynas â sefydliadau gwasanaeth sy'n cael eu rheoli ar y cyd neu eu rhannu fel y bo'n briodol.
89. Sicrhau bod y wybodaeth o ran perfformiad sy'n cyd-fynd â'r datganiadau ariannol sy'n cael ei pharatoi mewn modd cyson ac amserol a bod y datganiadau'n caniatáu cymharu â sefydliadau tebyg eraill.

- Mae'r Cyngor yn cyhoeddi ei [Adroddiad Perfformiad Blynyddol](#) a'i [Grynodedb o Gyfrifon](#) ar y wefan. (85)

- Cadeirydd a Phrif Swyddog Cyllid y Cyngor yn llofnodi'r Datganiad o Gyfrifoldebau'r Awdurdod dros y Datganiad o Gyfrifon. (86)
- Mae'r Cyngor yn cynhyrchu'r Cod Llywodraethu Corfforaethol hwn a Datganiad Llywodraethu, gaiff eu cynhyrchu yn unol ag egwyddorion CIPFA/Solace. (87)
- Cyflwynir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol i gael cymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio a'r Cyngor bob mis Medi. Ar ôl cael ei gymeradwyo, caiff y Datganiad ei lofnodi gan Arweinydd y Cyngor, a'r Prif Weithredwr. Mae'r Datganiad yn esbonio sut y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol ac wedi bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) (Diwygio) 2014. Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. (87)
- Os yn gymwys, byddai fframwaith gyfrifo briodol yn cael ei chymhwyso i wasanaethau a reolir ar y cyd neu a rennir. (88)
- Bob blwyddyn, cyhoeddir Datganiad o Gyfrifon, a gaiff ei archwilio a'i lofnodi, sy'n rhoi barn gywir a theg am sefyllfa ariannol yr Awdurdod, yn ôl archwiliwr allanol y Cyngor (Swyddfa Archwilio Cymru ar hyn o bryd). Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys datganiad o gyfrifoldebau, i sicrhau bod yr Awdurdod: (89)
 - yn cydymffurfio ag arferion priodol fel y'u nodir gan CIPFA/LASAAC yn y ddogfen *Code of Practice on Local Authority Accounting in Great Britain*.
 - yn rheoli ei fusnes i sicrhau ei fod yn defnyddio'i adnoddau a'i asedau'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol
 - yn dethol a chymhwyso polisiau cyfrifyddu addas yn gyson.
 - bod dyfarniadau ac amcangyfrifon a wneir yn rhesymol a darbodus.
 - yn cymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll ac anghysonderau eraill
 - yn cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a chyfredol; a bod

Sicrwydd ac atebolrwydd effeithiol

90. Sicrhau y gweithredir ar yr argymhellion ar gyfer camau unioni a wneir drwy archwilio allanol.
91. Sicrhau bod gwasanaeth archwilio mewnol effeithiol yn ei le gyda mynediad uniongyrchol i aelodau sy'n darparu sicrwydd o ran trefniadau llywodraethu ac y gweithredir ar argymhellion.
92. Croesawu herio gan gymheiriaid, ynghyd ag adolygiadau ac arolygon gan gyrff rheoleiddio a gweithredu argymhellion.
93. Cael sicrwydd o ran risgiau sy'n gysylltiedig â chyflenwi gwasanaethau drwy drydydd partïon a bod tystiolaeth o hyn yn y datganiad llywodraethu blynyddol.
94. Sicrhau, wrth weithio mewn partneriaeth, bod trefniadau ar gyfer atebolrwydd yn glir a bod yr angen am atebolrwydd cyhoeddus ehangach wedi'i gydnabod a'i gyflawni.

- Mae trefniadau allanol ar gyfer rheoleiddio a sicrwydd yn cael eu darparu gan nifer o gyrff a benodir yn statudol, yn bennaf Swyddfa Archwilio Cymru (WAO),

Estyn ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Mae'r Cyngor wedi hen sefydlu arferion ar gyfer delio â chanfyddiadau cyrff rheoleiddio allanol drwy bwyllgorau atgyfeirio, ymatebion ffurfiol a thracio, a chyhoeddi adroddiadau rheoleiddiol yn agored mewn papurau pwyllgor (sydd hefyd ar gael ar y wefan). Mae adroddiad crynodol blynyddol yn cael ei chyflwyno o'r Pwyllgor Archwilio sy'n dangos yr holl adroddiadau rheoleiddiol, eu canfyddiadau, ymateb y Cyngor ac i ble yr adroddwyd arnynt. (90) Yn ychwanegol at reoleiddio allanol gan gyrrff a benodir yn allanol, mae'r Cyngor yn croesawu herio gan gymheiriaid o lywodraeth leol a'r teulu gwasanaethau cyhoeddus e.e. Adolygiad cymheiriaid o Gyllid Llywodraeth Leol Cymru. (92)

- Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal hunanasesiadau rheolaidd o'i wasanaethau drwy ddulliau adolygu gwasanaethau a chynllunio effeithlonrwydd busnes. Mae dilysu'r asesiadau yma'n allanol yn cael ei groesawu hefyd drwy feincnodi ac asesiadau a gomisiynir. (92)
- Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cael ei ddarparu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) ac yn unol â datganiad CIPFA ar Rôl Pennaeth Archwilio Mewnol. Mae Archwilio Mewnol yn 'cydymffurfio'n gyffredinol' â gofynion PSIAS yn ôl hunanasesiad ac asesiad allanol yn 2016/17, ac mae hynny'n golygu bod y strwythurau, polisiau a gweithdrefnau perthnasol yr adran, yn ogystal â'r prosesau a ddefnyddir i'w cymhwysu, yn cydymffurfio â gofynion y Safonau a'r Cod Moesegau ym mhob agwedd o bwys. (91)
- Ar ôl adolygu strwythur y pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn 2014/15, sefydlwyd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol. Gan symud tuag at fodolau darparu amgen (ADM) ar gyfer darparu gwasanaethau, yn ogystal â Throsglwyddo Asedau Cymunedol (CAT) mewn perthynas â phrif gyfleusterau megis Pwll Nofio Cei Connah a Chanolfan Hamdden Treffynnon, mae'r Pwyllgor yn darparu'r capasiti a'r gallu ategol er mwyn delio a dulliau newydd o'r fath. Mae'r pwyllgor yn ymwneud â cham datblygu meysydd gwaith o bwys mawr - ac mae hynny'n rhywbeth na wnaethpwyd o'r blaen. Atgoffwyd Aelodau o'r ymagwedd newydd tuag at ddull gweithio yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol yn Nhachwedd 2015 – [Rôl y pwyllgor wrth gefnogi Newid Sefydliadol](#). (93/94)

Datganiadau Sicrwydd

Rwyf yn fodlon bod trefniadau llywodraethu effeithiol yn bodoli, yn cynnwys system gydnherth o reolaeth fewnol, drwy gydol y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2017, a bod hynny yn barhaus.

Llofnodwyd	Swydd	Dyddiad
	Prif Weithredwr	
	Swyddog Adran 151	
	Prif Swyddog - Llywodraethu	